**Alun Ffred Jones AC/AM**
**Y Gweinidog dros Dreftadaeth**
**Minister for Heritage**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/AJ/0037/10

Val Lloyd AM
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Mehefin 2010

Annwyl Val,

**Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mai 2010 ar ran Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yn gofyn am eglurhad mewn perthynas â rôl Comisiynydd y Gymraeg o ran gwneud safonau a'r broses berthnasol i'w dilyn, cyn i Weinidogion Cymru wneud safonau (o dan adran 25 y Mesur arfaethedig).

Gofynnoch hefyd i mi ddarparu safon drafft fel enghraifft.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i bwysleisio mai enghreifftiol yn unig yw'r wybodaeth a ddarperir yn y llythyr hwn gyda'r bwriad o roi syniad yn unig o sut y gall y Comisiynydd arfer ei bwerau, a sut y gallai safonau edrych yn y pendraw. Bydd union ffurf safonau y caiff eu datblygu yn deillio o'r prosesau a amlinellir yn y Mesur arfaethedig.

**Rôl Comisiynydd y Gymraeg a'r broses i'w dilyn**

Mewn perthynas â'r broses ar gyfer datblygu a gwneud safonau, mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi rôl sylweddol i'r Comisiynydd i'w chwarae, gan gynnwys rhoi pwerau i'r Comisiynydd i gynnal *ymchwiliadau safonau* (adrannau 59 i 61). Yn ystod yr ymchwiliadau hyn bydd y Comisiynydd yn ymgynghori â'r cyrff perthnasol (h.y. rheini y bydd ef neu hi'n cynnig ddylai fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau drwy safonau) a chaiff ymgynghori gyda phartïon eraill sydd â buddiant yn y mater (a all gynnwys y cyhoedd).

Bydd hi'n bosibl i'r Comisiynydd gynnal ymchwiliadau safonau fesul sector. Er enghraifft, efallai bydd y Comisiynydd yn dymuno cynnal ymchwiliad safonau sy'n canolbwyntio ar awdurdodau lleol.

Wrth gynnal ymchwiliadau safonau, bydd modd i'r Comisiynydd ddwyn i gyfrif y cynnydd a wnaed yn dilyn dros bymtheg mlynedd o brofiad o gynlluniau iaith. Gall dadansoddiad o gynlluniau cyfredol awdurdodau lleol (er enghraifft) ddynodi gwaelodlin o'r ymrwymiadau ynghylch darparu gwasanaethau Cymraeg a wnaed gan yr awdurdodau hynny hyd yma.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel 029 2089 8465
Ffacs • Fax 029 2089 8015
correspondence.alun.ffred.jones@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Gall y dadansoddiad hynny hefyd ddarparu tystiolaeth i'r Comisiynydd ynghylch arfer da yn ogystal â lle mae'n bosibl gwella ar gyflenwi gwasanaethau. Gall y dadansoddiad hynny hefyd ddarparu tystiolaeth ynghylch unrhyw amrywiaethau sydd efallai yn bodoli rhwng gwahanol awdurdodau.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth o'r camau a gymerir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, ac ar ôl rhoi sylw i'r farn a fynegwyd mewn unrhyw ymgynghoriad, efallai y daw'r Comisiynydd i'r casgliad y bydd angen rhai amrywiaethau i'r safonau y bydd yn argymell y dylid eu cymhwyso i wahanol awdurdodau. Wrth wneud ei argymhellion, bydd angen i'r Comisiynydd benderfynu sut y dylai unrhyw amrywiaethau gael eu hadlewyrchu, naill ai yn y safonau eu hunain neu drwy'r defnydd (ar gyfer safon neilltuol) o ddiwrnodau gosod gwahanol ar gyfer gwahanol awdurdodau (fel yr amlinellir yn adran 45).

Gall y dadansoddiad fod yn sail gwybodaeth i waith y Comisiynydd wrth iddo ymgynghori gydag awdurdodau lleol ynghylch symud o gynlluniau iaith i safonau gan ddwyn i gyfrif – a phan yn briodol adeiladu ar – yr ymrwymiadau cyfredol a nodir yn eu cynlluniau. Gall yr ymgynghoriad hefyd geisio barn ynghylch y diwrnodau gosod (h.y. faint o amser fydd angen ar bob awdurdod i gydymffurfio gyda phob safon unigol) a chasglu gwybodaeth er mwyn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i baratoi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, a fydd yn mynd gyda phob offeryn statudol fydd yn gwneud y safonau.

Yn dilyn ymchwiliad safonau, bydd y Comisiynydd yn anfon adroddiad i Weinidogion Cymru, a fydd yn datgan barn y Comisiynydd ynghylch a ddylid gwneud safonau yn benodol gymwys i'r cyrff yr ymgynghorwyd â hwy. O dan adran 64 o'r Mesur arfaethedig, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i'r adroddiad hwnnw wrth benderfynu a ddylent arfer eu pwerau i wneud safonau, fel a roddir iddynt gan Ran 4 y Mesur, a sut dylent wneud hynny.

Amgaeir nodyn manylach yn Atodiad 1 o gamau unigol y broses o osod dyletswydd ar gyrff i gydymffurfio â safonau.

**Safon Drafft**

Gofynnoch hefyd i mi ddarparu safon drafft fel enghraifft.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor ystyried sut y gellid datblygu safonau mewn maes fel gohebiaeth lle mae cynnwys cynlluniau iaith Gymraeg yn dangos bod gan gyrff cyhoeddus ddull cyffredin o ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd

Yn ei ffurf fwyaf syml, a chan adlewyrchu'r ffaith y gall safonau adeiladu ar gynlluniau iaith, gall safon ar ohebiaeth weld cymal mewn cynllun megis:

> *Bydd pob llythyr a dderbynnir gan y Cyngor yn y Gymraeg yn cael ei ateb yn y Gymraeg wedi ei lofnodi pryd bynnag y bydd angen ateb… Bydd yr amserau targed yn union yr un fath ar gyfer ateb llythyrau Cymraeg ag yn achos llythyrau Saesneg.* (Cyngor Sir Penfro)

… yn newid i fod yn safon yn datgan:

> *Pan fydd rhywun yn ysgrifennu at gorff yn Gymraeg bydd rhaid i'r corff ddarparu ymateb yn Gymraeg ac wedi ei lofnodi (os oes angen ateb). Bydd yr amserau targed yn union yr un fath ar gyfer darparu ateb i lythyrau Cymraeg ag yn achos llythyrau Saesneg.*

Yn ogystal â'r uchod, fodd bynnag, gall y materion canlynol gael eu hystyried mewn perthynas â safonau yn delio â gohebiaeth:

- yr angen am lofnodion a manylion cyswllt Cymraeg neu ddwyieithog i ymddangos ar ymatebion a anfonir drwy e-bost
- nodi'r disgwyliadau mewn perthynas ag unrhyw atodiadau a amgaeir gydag ymateb
- y materion i'w hystyried wrth gychwyn gohebiaeth (gan gynnwys sut i wneud penderfyniadau ynghylch yr iaith i'w defnyddio; p'un ai Cymraeg, Saesneg neu'r ddwy).

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol fod y Mesur yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud gwahanol fathau o safonau. Ystyrir pob un yn ei dro:

Rhaid i *safonau cyflenwi gwasanaethau* ddelio â'r gweithgareddau a restrir yn Atodlen 9 o'r Mesur arfaethedig (ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r gweithgareddau hynny), i'r graddau y mae'r corff neu'r gr• p o gyrff yn cyflawni'r gweithgareddau hynny – mae'r gweithgareddau hyn i gyd yn nodweddion o gynlluniau cyfredol ac maent yn berthnasol i ran helaeth o ryngwyneb corff gyda'r cyhoedd.

Bwriad *safonau llunio polisi* yw adeiladu ar gynnwys cynlluniau lle maent yn ymwneud â'r broses o ddatblygu polisi. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor, yn hyn o beth, ystyried yr enghraifft ganlynol o gynllun iaith a baratowyd gan Gyngor Sir y Fflint:

> *Pan fo'r Cyngor yn cynllunio ac yn llunio polisïau newydd neu'n adolygu ei bolisïau cyfredol, bydd yn manteisio ar bob cyfle i gymryd cam ymlaen o ran gweithredu'r egwyddor o sicrhau cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg drwy: ofalu bod y gwaith o gynllunio ar gyfer gwasanaethau dwyieithog yn rhan annatod o gynllunio gwasanaethau; asesu canlyniadau ieithyddol i weld a ydynt yn bodloni'r ymrwymiadau a nodir yn y Cynllun hwn; gofalu bod polisïau, cynlluniau a mentrau'n hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan y Cyngor ei hun a'r cyhoedd.*

Gall safonau llunio polisi osod y broses fydd angen i gorff ei dilyn wrth ddatblygu polisïau yn hytrach na'r gweithrediadau penodol. Yn ogystal, gall y Comisiynydd gyhoeddi cod ymarfer ar gyfer datblygu polisi. Gall safon llunio polisi fod megis:

*Wrth wneud penderfyniadau polisi, rhaid rhoi ystyriaeth i:*

- *effaith (os o gwbl) y penderfyniadau ar gyfleoedd personau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg*
- *sut gellid gwneud y penderfyniadau hynny fel bod ganddynt effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd personau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg*
- *sut gellid gwneud y penderfyniadau hynny fel nad oes ganddynt effeithiau andwyol, neu fel eu bod yn cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd personau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg.*

Bwriad *safonau gweithredu* yw adeiladu ar gynnwys cynlluniau ynghylch datblygu gallu gweithlu corff i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.

Mae *safonau hybu* yn cynnig cyfle i weithredu yn fwy eang ddull o hybu'r iaith sy'n adlewyrchu'r ddyletswydd bresennol a osodir ar Weinidogion Cymru o dan adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt fabwysiadu strategaeth sy'n datgan sut maent yn bwriadu hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Gall y safonau hyn hefyd adeiladu ar yr ymrwymiadau ynghylch yr iaith a osodir ar gyfer awdurdodau lleol yn

nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Gweledigaeth Leol - Canllawiau Statudol ar Ddatblygu a Chyflenwi Strategaethau Cymunedol*[1].

Gellid hefyd datblygu *safonau cadw cofnodion* yn y modd a osodwyd yn y Mesur. Gallant eu gwneud yn ofynnol i gorff, er enghraifft:

- i gadw cofnodion yngl• n â'r modd y maent yn cydymffurfio â safonau eraill (megis safonau cyflenwi gwasanaethau); ac
- i gadw manylion honiadau o ddiffyg cydymffurfio â safonau eraill.

Hyderaf fod yr wybodaeth yn y llythyr hwn yn cynnig yr eglurhad ychwanegol y gofynnoch amdano. Edrychaf ymlaen at gael ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 17 Mehefin pan fyddaf yn hapus i drafod y materion hyn gyda chi ymhellach.

Yn gywir,

**Alun Ffred Jones AC/AM**
Y Gweinidog dros Dreftadaeth/Minister for Heritage

---

[1] http://cymru.gov.uk/topics/localgovernment/publications/localvisionguidance/?skip=1&lang=cy

**Atodiad 1: Y broses ar gyfer gosod dyletswydd ar gyrff i gydymffurfio â safonau**

1. Caiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau (gweler adran 60) er mwyn penderfynu:

    - A ddylai corff gael ei gynnwys, neu barhau i gael ei gynnwys, yn Atodlen 6 neu 8 (sefydliadau y gallai fod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau);
    - Os yw corff o fewn Atodlen 6, pa safonau (e.e. cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi ac ati) ddylai fod yn benodol gymwys iddo, neu y dylent barhau i fod yn benodol gymwys iddo;
    - Os yw corff o fewn Atodlen 8, pa wasanaethau a ddarperir gan y corff hwnnw ddylai gael eu cynnwys o fewn colofn (2) nesaf ato yn Atodlen 8, neu barhau i gael eu cynnwys yno;
    - Pa safonau, os o gwbl, ddylai fod yn benodol gymwys i'r corff, neu barhau i fod yn benodol gymwys iddo; neu
    - Unrhyw gwestiwn arall y mae'r Comisiynydd yn ystyried ei fod yn berthnasol i'r graddau y gellir gosod ar y corff y ddyletswydd dan adran 24 i gydymffurfio â safonau.

2. Wrth gynnal ymchwiliad safonau sy'n ymwneud â pherson neu gr• p penodol, bydd y Comisiynydd wedi:

    - darparu hysbysiad ysgrifenedig, o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar ymchwiliad, yn hysbysu'r corff y cynhelir yr ymchwiliad mewn perthynas ag ef bod y Comisiynydd yn bwriadu cynnal yr ymchwiliad ac yn pennu pwnc yr ymchwiliad hwnnw (hysbysiad rhagymchwilio);
    - ymgynghori â'r corff y cynhelir yr ymchwiliad mewn perthynas ag ef ac wedi ymgynghori â'r Panel Cynghori; ac
    - wedi ystyried yr angen i sicrhau nad yw'r gofynion i gyrff gydymffurfio â safonau yn afresymol neu'n anghymesur.

3. Bydd gan y Comisiynydd y p• er i ymgynghori ag unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd yn ystyried bod ganddo fuddiant yng nghanlyniad yr ymchwiliad.

4. Ar ôl cynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd gynhyrchu adroddiad safonau.

5. Bydd adroddiad safonau'n adlewyrchu'r casgliadau y daeth y Comisiynydd iddynt yn dilyn ymchwiliad i'r safonau y dylai corff neu gr• p penodol gydymffurfio â hwy (ymchwiliad safonau). I'r graddau nad yw safonau o'r

math a argymhellir gan y Comisiynydd wedi'u pennu o'r blaen o dan adran 25, rhaid i'r adroddiad safonau nodi'r safonau nad ydynt wedi'u pennu.

6. Rhaid anfon copïau o adroddiad safonau'r Comisiynydd at bob un o'r cyrff yr ymgynghorwyd â hwy wrth gynnal yr ymchwiliad safonau, yn ogystal â Gweinidogion Cymru.

7. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i'r adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylid gweithredu'r pwerau a roddir iddynt gan Ran 4 o'r Mesur, er enghraifft, i bennu safonau a'u gwneud yn benodol gymwys i gyrff neu grwpiau o gyrff, a sut y dylid gwneud hynny.

8. Wedyn, caiff Gweinidogion Cymru ddeddfu drwy offeryn statudol i bennu safonau a'u gwneud yn benodol gymwys i gyrff penodol neu grwpiau o gyrff.

9. Wedi i gyrff gael eu pennu yn y fath fodd, caiff y Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i un neu'r cyfan o'r cyrff hyn, ynghyd â chopi o unrhyw god ymarfer perthnasol a gwybodaeth am hawl y corff i herio.

10. Rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â chorff cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio iddo, oni bai fod y Comisiynydd yn fodlon yr ymgynghorwyd â'r corff eisoes, neu ei fod wedi cael cyfle i fod yn destun ymgynghori, ar y mater hwnnw mewn cysylltiad ag ymchwiliad safonau (gweler adran 46).